Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Adroddiad Gwaddol y Chweched Senedd

Mawrth 2026

senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddEconomi@senedd.cymru**
X: **@SeneddEconomi**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Adroddiad Gwaddol y Chweched Senedd

Mawrth 2026

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Andrew RT Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**
Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ........ **5**

**1. Gwaith Craffu yn y Chweched Senedd** ........ **7**

Dull craffu ........ 7

Ymgysylltu â phobl Cymru ........ 7

**2. Blaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd** ........ **9**

Yr economi ........ 9

Sgiliau ........ 17

Masnach ........ 19

Materion Gwledig ........ 20

**3. Cyngor i Aelodau'r Dyfodol** ........ **29**

**4. Ymholiadau** ........ **31**

Yr economi ........ 32

Sgiliau ........ 35

Masnach ........ 36

Materion Gwledig ........ 37

**5. Deddfwriaeth** ........ **40**

Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ........ 40

Bil Bwyd (Cymru) ........ 40

Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) ........ 40

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ........ 41

# Rhagair y Cadeirydd

Mae gan y Pwyllgor hwn gylch gwaith eang ac amrywiol iawn. Rydym wedi trafod amrywiaeth eang o faterion gan gynnwys prinder gyrwyr cerbydau nwyddau trwm, iechyd pridd, trafodaethau masnach a phrentisiaethau.

Mae'r materion hyn yn hanfodol bwysig i ddinasyddion Cymru, busnesau Cymru a'n cymunedau gwledig.

Pan dderbyniais y cyfrifoldeb am gadeirio Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ym mis Ionawr 2025, roeddwn eisiau parhau â'r gwaith da roedd fy nghydweithiwr Paul Davies AS wedi'i ddechrau, a sicrhau bod y Pwyllgor yn cael effaith, yn dal y Llywodraeth i gyfrif ac yn cynrychioli pobl Cymru. Mae'n dda gen i ddweud fy mod yn credu ein bod wedi cyflawni'r nodau hyn.

Mae'r Pwyllgor hwn wedi bod yn gwneud ei waith ar adeg hynod gythryblus. Sefydlwyd y Pwyllgor tua diwedd y Pandemig, a nawr rydym ni wedi cael ein rhybuddio y gallai'r ergydion ynni sy'n ein hwynebu o ganlyniad i'r gwrthdaro yn Iran fod hyd yn oed yn waeth na'r ergydion olew yn y 70au.

Mae'r holl heriau hyn wedi creu problemau gwirioneddol i fusnesau, gweithwyr a'r gymuned wledig. Er bod ein cylch gwaith eang wedi golygu ein bod wedi gorfod cyfyngu ein sylw i rai materion, rwy'n gobeithio bod pobl yn teimlo ein bod wedi gwneud cyfiawnder â'r gwaith dros y pum mlynedd diwethaf ac wedi rhoi'r materion sy'n eu hwynebu dan y sbotolau.

Ni fydd y materion sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd yn aros yn ddigyfnewid pan ddaw tymor y Senedd hon i ben, ac rwy'n credu y bydd angen i'r Pwyllgor neu'r Pwyllgorau sy'n ein holynu fwrw iddi yn syth o ystyried y problemau economaidd posibl a chostau uwch ffermio. Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn eu helpu i wneud hynny a'i fod yn rhoi trosolwg defnyddiol o'r gwaith pwysig y mae'r Pwyllgor hwn wedi'i wneud dros y pum mlynedd diwethaf.

Rwyf wedi mwynhau'n fawr yr anrhydedd a'r cyfrifoldeb o gadeirio Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Chweched Senedd. Hoffwn ddiolch i

Paul am ei waith yn cadeirio'r Pwyllgor cyn i mi gymryd yr awenau, ac i'r holl Aelodau blaenorol a phresennol. Hefyd, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi ymgysylltu â'r Pwyllgor dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r dystiolaeth rydych chi wedi'i darparu wedi bod yn hanfodol i'n helpu i wneud argymhellion a dal y Llywodraeth i gyfrif. Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r holl staff yn y Senedd sydd wedi ein cefnogi i gyflawni ein gwaith.



**Andrew RT Davies AS**
Cadeirydd

# 1. Gwaith Craffu yn y Chweched Senedd

## Dull craffu

**1.** Mae gan y Pwyllgor gylch gwaith eang iawn sy'n cwmpasu datblygu economaidd, adfywio, sgiliau, masnach, ymchwil a datblygu (gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth) a materion gwledig. Cytunodd y Pwyllgor ei bod yn bwysig ceisio cydbwyso gwaith craffu ar draws yr ystod o bynciau. Er mwyn helpu i gyflawni'r nod hwn, gwnaethom benderfynu cynnal ymholiadau byr â ffocws penodol, ond trylwyr serch hynny.

**2.** Gwnaeth cyfarfod yn wythnosol ein helpu i roi sylw i gymaint o'r cylch gwaith â phosibl. Roeddem hefyd yn gweld bod cael cyfarfodydd byrrach yn fwy rheolaidd yn well na chael cyfarfodydd hirach bob pythefnos oherwydd bod hyn yn golygu y gallem ganolbwyntio mwy ar y materion dan sylw a bod yn fwy adweithiol. Gwnaethom hefyd ganiatáu i ni weithio'n gyflym ond ystyried materion rhwng sesiynau hefyd.

**3.** Er bod y cylch gwaith yn eang ac yn amrywiol, mae llawer o orgyffwrdd rhwng ein gwahanol feysydd polisi. Gwnaethom fabwysiadu dull cyfannol o ymdrin â'n hymholiadau lle bynnag y bo'n bosibl. Er enghraifft, gwnaethom sicrhau bod yr economi wledig wedi'i chynnwys yn ein gwaith economaidd a chynnwys ffocws economaidd yn ein gwaith cynhyrchu bwyd. Roedd hyn yn caniatáu i ni graffu ar faterion yn gynhwysfawr ac yn ein helpu i gadw'r cydbwysedd hwnnw rhwng y gwahanol feysydd polisi i ni eu trafod.

## Ymgysylltu â phobl Cymru

**4.** Er bod y rhan fwyaf o'n gwaith wedi'i wneud mewn cyfarfodydd ffurfiol yn y Senedd, does dim byd yn cymharu â'r ddealltwriaeth y gallwch ei chael o ymweld â safle a siarad yn uniongyrchol â phobl berthnasol. I'r perwyl hwn, gwnaethom gynnal nifer o ymweliadau, gan gynnwys â'r Ganolfan Ymchwil Amaethyddol yng Ngelli Aur, Porthladd Caergybi, Llyn Efyrnwy a'r Ganolfan Cymorth Cymunedol a sefydlwyd i helpu pobl yr effeithiwyd arnynt gan gau ffwrneisi chwyth Port Talbot.

**5.** Gwnaethom hefyd gynnal digwyddiadau i randdeiliaid yn y Sioe Fawr bob blwyddyn, a roddodd wybodaeth werthfawr i ni y gallem ei chyflwyno i'n gwaith craffu. Hoffem ddiolch i bawb a groesawodd y Pwyllgor am ymweliad neu a fynychodd un o'n digwyddiadau i randdeiliaid.

**6.** Gwnaethom hefyd gomisiynu tîm ymgysylltu'r Senedd i ymgymryd â gwaith penodol fel rhan o rai o'n hymchwiliadau. Roedd hyn yn cynnwys cyfweld â gyrwyr cerbydau nwyddau trwm, cynnal grwpiau ffocws o brentisiaid a siarad â phobl yr effeithiwyd arnynt gan gau'r ffwrneisi chwyth. Cynhyrchodd y gwaith ymgysylltu peth o'r dystiolaeth fwyaf pwerus a glywsom, ac roedd yn help mawr i ddeall a chyfleu materion yn ein hadroddiadau. Unwaith eto, hoffem ddiolch i bawb a gymerodd yr amser i ymgysylltu â'r Pwyllgor fel rhan o'r darnau hyn o waith.







# 2. Blaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd

**7.** Er ein bod yn ymwybodol y bydd gan ein Pwyllgor neu Bwyllgorau olynol eu blaenoriaethau eu hunain, rydym wedi llunio'r rhestr hon o faterion cyfredol a pharhaus, gan gynnwys trosolwg byr o bob un. Wrth gwrs, mater i'n holynwyr fydd penderfynu beth maent am ganolbwyntio arno, ond rydym yn gobeithio y bydd y rhestr hon yn ddefnyddiol iddynt wrth lunio eu rhaglen waith neu raglenni gwaith.

## Yr economi

### Pontio a Dyfodol Dur Cymru

**8.** Mae dur wedi dominyddu busnes y Pwyllgor. Ar 30 Medi 2024, cafodd ffwrnais chwyth 4 yng ngwaith dur Port Talbot ei chau, gan roi terfyn ar 100 mlynedd o gynhyrchu dur yn y dref. Ar hyn o bryd, mae Tata yn adeiladu Ffwrnais Arc Drydan yn y Gwaith Dur. Mae'r penderfyniad i symud o ffwrnais chwyth i Ffwrnais Arc Drydan wedi arwain at filoedd o bobl yn colli swydd – pobl a oedd yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan Tata, yn y gadwyn gyflenwi ac mewn busnesau ategol a oedd yn dibynnu ar fasnach gan weithlu'r Gwaith Dur.

**9.** Sefydlodd Llywodraeth y DU Fwrdd Pontio, gan ddyrannu £80m o gyllid iddo i ddechrau ac ychwanegu £22m yn rhagor ym mis Rhagfyr 2025, gyda £20m pellach yn cael ei gyfrannu gan Tata. Ysgrifennydd Gwladol Cymru sy'n cadeirio'r Bwrdd ac mae ei aelodau'n cynnwys Llywodraeth Cymru, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol lleol, Tata ac undebau llafur.

**10.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu cymorth, gan gynnwys drwy raglenni cymorth cyflogadwyedd a dileu swydd, Cyfrifon Dysgu Personol wedi'u targedu ar gyfer gweithwyr Tata, a chymorth busnes. Mae hefyd wedi ariannu'r Ganolfan Cymorth Cymunedol, sy'n darparu cymorth, arweiniad a chyngor ar ailhyfforddi.

**11.** Mis Chwefror diwethaf, lansiodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar ddatblygu Strategaeth Ddur.[1] Addawyd yn wreiddiol y byddai'n cael ei lansio erbyn diwedd 2025, ond bu oedi.[2]

---

[1] Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar Strategaeth Ddur
[2] Llwybr Llywodraeth y DU i lansio'r strategaeth ddur

**12.** Ar 28 Medi 2023 a 14 Mawrth 2024, rhoddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, David TC Davies, dystiolaeth i'r Pwyllgor. Yn dilyn newid llywodraeth yn San Steffan, daeth Jo Stevens AS, Ysgrifennydd Gwladol presennol Cymru, i gyfarfod y Pwyllgor ar 20 Tachwedd 2024.

**13.** Clywsom gan y swyddogion undebau lleol sy'n gweithio yng Ngwaith Dur Port Talbot a ddywedodd er bod cynrychiolwyr cenedlaethol eu hundebau wedi cael gwahoddiad i'r Bwrdd Pontio, nad oedd cynrychiolwyr undebau lleol wedi cael eu gwahodd i gyfarfodydd er eu bod wedi gofyn am gael bod yn bresennol. Credwn y bydd yr amryfusedd hwn gan y Bwrdd yn golygu eu bod wedi colli cyfle i gael darlun gwerthfawr o'r hyn a oedd yn digwydd a sut roedd pobl yn teimlo ym Mhort Talbot.[3]

**14.** Rydym yn hynod bryderus am effaith ddynol cau'r ffwrneisi chwyth. Er bod cymorth pontio i'w groesawu, rydym wedi gweld dro ar ôl tro effeithiau dinistriol dad-ddiwydiannu ar gymunedau ledled Cymru. Rydym yn pryderu nad yw gwersi wedi cael eu dysgu ers cau Gwaith Dur Glyn Ebwy, er enghraifft, ac nad yw'r cymorth sydd wedi'i gynnig gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU hyd yma yn ddigon i ddiogelu Port Talbot a'i chymuned yn llawn rhag effaith dad-ddiwydiannu.

**15.** Cododd undebau dur bryderon ynghylch effaith dympio dur ar ddyfodol Port Talbot a diwydiant dur y DU yn ehangach gyda'r cadeirydd. Yn dilyn y cyfarfod hwn, penderfynodd yr Aelodau gynnal sesiwn derfynol frys ar ddur.[4]

**16.** Gwnaethom wahodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru i roi tystiolaeth ar ddur ar sawl achlysur. Fodd bynnag, er ei bod wedi datgan ei bod yn hapus i roi rhagor o dystiolaeth i'r Pwyllgor, roedd hi am aros i'r Strategaeth Ddur gael ei chyhoeddi cyn gwneud hynny. Cyhoeddwyd y Strategaeth ar 19 Mawrth[5], ac wedi hynny cyflwynodd yr Ysgrifennydd Gwladol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor cyn ei sesiwn olaf.[6]

**17.** Yn dilyn ein sesiwn olaf, cyhoeddodd y Cadeirydd ddatganiad:

---

[3] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9/10/2025, paragraff 323
[4] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Mawrth 2026
[5] Strategaeth Ddur y DU, Mawrth 2026
[6] Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, 24 Mawrth 2026

> *"Mae sesiwn dystiolaeth heddiw wedi tynnu sylw unwaith eto at bwysigrwydd diwydiant dur cynaliadwy sy'n addas at y dyfodol.*
>
> *Roeddem yn falch o glywed bod y diwydiant yn croesawu strategaeth ddur Llywodraeth y DU, ond roedd hi'n amlwg bod hwn yn gam cyntaf. Wedi aros hir, rydym am weld cynllun clir sy'n amlinellu dyfodol mwy disglair i'r diwydiant.*
>
> *Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ystyried sefydlu ysgol sgiliau dur i sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn barod i barhau i gynhyrchu dur yng Nghymru.*
>
> *Rhaid i Lywodraeth Cymru gydweithio'n agos â Llywodraeth y DU i greu amodau masnach ac economaidd a fydd yn helpu ein diwydiant i ffynnu.*
>
> *Hoffem ddiolch i'r undebau llafur, 7 Steel, Tata Steel a Llywodraeth Cymru am roi tystiolaeth i'n hymchwiliad – mae'n destun siom mawr nad oedd Llywodraeth y DU yn bresennol.*
>
> *Mae'r diffyg ymgysylltu hwnnw'n drawiadol o ystyried difrifoldeb y problemau a'r ffaith ei fod yn gyfle i egluro'r strategaeth ddur i bobl Cymru. Mewn lleoedd fel Port Talbot, mae dur yn fwy na swydd; mae'n rhan o wead y gymdeithas a'u ffordd o fyw.*
>
> *Rhaid i Gymru ddysgu gwersi'r gorffennol o ran dad-ddiwydiannu. Pan ddaw Llywodraeth nesaf Cymru i rym, rhaid i'r cymunedau dan sylw gael eu blaenoriaethu, eu trin ag urddas, a'u cynnwys mewn ffordd ystyrlon.*
>
> *Byddaf yn ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn nodi'r camau nesaf y mae angen eu cymryd, yn ein barn ni, er mwyn creu diwydiant dur cynaliadwy sy'n addas at y dyfodol."*

**18.** Mae angen i ni allu dibynnu ar ddur Cymru i wireddu ein huchelgais o fod ar flaen y gad o ran ynni adnewyddadwy, morgludiant, trafnidiaeth ac er mwyn gallu adeiladu adeiladau tal a gwella ein hamddiffynfeydd cenedlaethol. Oherwydd hynny, ac i sicrhau bod y rhai sydd wedi colli eu gwaith a'r gymuned yn cael eu cefnogi'n briodol drwy'r newid hwn, rydym yn argymell y dylai ein Pwyllgor barhau i flaenoriaethu pontio a dyfodol dur Cymru. Dylai'r gwaith hwn gynnwys canolbwyntio ar y cymorth i'r rhai a gafodd eu heffeithio gan gau'r ffwrneisi

chwyth, cynnydd tuag at ddatblygu'r Ffwrnais Arc Drydan newydd, ac effaith bosibl mesurau masnach ar y diwydiant dur.

**19.** Rydym yn argymell yn benodol hefyd y dylai ein Pwyllgor olynol gynnal ymchwiliad i'r pontio a'r bwrdd pontio, yn cynnwys ei weithrediad a'i berfformiad. Rhaid i effaith ddynol cau'r ffwrnais chwyth a'r pontio fod yn ganolog i unrhyw waith ar y mater hwn.

## Effaith bosibl y gwrthdaro yn Iran

**20.** Mae chwyddiant sy'n uwch na'r targed wedi bod yn broblem yng Nghymru gydol tymor y Senedd hon. Yn fwy diweddar, roedd chwyddiant wedi sefydlogi ac roedd cyfraddau llog yn gostwng. Fodd bynnag, mae'r cynnydd hwn wedi cael ei danseilio gan y gwrthdaro yn Iran a chau Culfor Hormuz yn sgil hynny. Rydym yn pryderu y gallai ergydion economaidd difrifol fod ar y gorwel a gallai'r argyfwng ynni sy'n bygwth digwydd gael effaith ddifrifol ar gostau byw. Rydym yn poeni hefyd am y costau uwch a welwn yn rhaeadru i'r diwydiant ffermio a'r effaith a gaiff y costau uwch hynny a lleihad mewn morgludiant rhyngwladol ar gost bwyd. Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn edrych ar hyn ar unwaith ar ôl cael ei ffurfio.

## Strategaeth ddiwydiannol ac amddiffyn

**21.** Cyhoeddwyd Strategaeth Ddiwydiannol Fodern Llywodraeth y DU ym mis Mehefin 2025.[7] Mae'n canolbwyntio ar wyth sector twf uchel[8], y mae nifer ohonynt yn chwarae rhan allweddol yn economi Cymru, gyda chyflogwyr mawr a chwmnïau'r gadwyn gyflenwi yn y sectorau hyn yn bwysig i lawer o'n cymunedau.[9] Bydd ystyried sut i wneud y gorau o gyfleoedd posibl yn y sectorau hyn yn fater pwysig i'n Pwyllgor olynol ei archwilio.

**22.** Un o'r sectorau hyn yw amddiffyn, ac mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gynyddu gwariant amddiffyn o'r lefel bresennol o 2.3% o CMC y DU i 2.5% erbyn 2027 a 3.5% erbyn 2035.[10] Nodwn fod cwmnïau amddiffyn wedi galw am dargedu mwy o wariant at y diwydiant yng Nghymru, gan gynnwys General Dynamics sydd wedi'i leoli ym Merthyr, Aberdâr a Chaerffili, Llanelec yng Nghastell-nedd a BAE Systems ym Mrynbuga. Ym mis Chwefror 2026, llofnododd llywodraethau Cymru

---

[7] Gov.uk, Strategaeth Ddiwydiannol
[8] Gov.uk, Cynlluniau Sector
[9] Llyw.cymru, Papur trafod strategaeth ddiwydiannol y DU
[10] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Gwariant y DU ar amddiffyn

a’r DU Gytundeb Twf Amddiffyn Cymru gwerth £50 miliwn, sydd â’r nod o fanteisio’n llawn ar Gymru fel man lansio’r DU ar gyfer technoleg ymreolaethol a systemau di-griw, ceisio gwella mynediad at gontractau amddiffyn i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, ac ymrwymo’r ddwy lywodraeth i weithio gyda’i gilydd i sefydlu Coleg Technegol Amddiffyn erbyn mis Medi 2027[11]. Mae trafodaethau ar gyfranogiad y DU yn offeryn benthyciad amddiffyn SAFE € 150 biliwn yr UE yn parhau, a fyddai’n adeiladu ar bartneriaeth diogelwch ac amddiffyn y DU-UE.

**23.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn edrych ar i ba raddau y mae Cymru’n elwa ar gyflawni’r strategaeth ddiwydiannol, pa mor effeithiol y mae llywodraethau Cymru a’r DU yn gweithio gyda’i gilydd i sicrhau hyn, ac a oes unrhyw fylchau y mae angen mynd i’r afael â nhw. Rydym hefyd yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn ystyried sut y mae Llywodraeth nesaf Cymru yn manteisio i’r eithaf ar y cyfleoedd posibl sy’n deillio o gynnydd mewn gwariant Llywodraeth y DU ar amddiffyn, ac o Fargen Twf Amddiffyn Cymru.

## Bargeinion Twf Dinesig a Rhanbarthol

**24.** Nod y pedair Bargen Twf Dinesig a Rhanbarthol yw bod yn sbardunau hirdymor ar gyfer datblygu economaidd ac maent yn cael eu hariannu a’u cefnogi ar y cyd gan Lywodraethau Cymru a’r DU. Ymrwymodd Llywodraeth y DU i fuddsoddi £791 miliwn yn y bargeinion dros 10 i 15 mlynedd. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i fuddsoddi dros £795 miliwn dros 15 i 20 mlynedd.[12]

**25.** Craffodd y Pwyllgor ar y bargeinion yn 2023 ac edrychodd eto ar y gwaith hwn yn 2025. Yn dilyn ein gwaith yn 2025, roedd gennym bryderon difrifol ynghylch cyflwyno Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Bargen Twf Uchelgais Gogledd Cymru.

**26.** Creu a diogelu swyddi yw un o brif amcanion y bargeinion hyn. Fodd bynnag, roedd diffyg cynnydd y ddwy fargen yn siomedig. Roeddem hefyd yn bryderus am y materion yn ymwneud â chaffael Aberddawan a oedd wedi effeithio ar Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a gallu Uchelgais Gogledd Cymru i gyflwyno dewisiadau amgen effaith uchel yn lle prosiect arfaethedig Trawsfynydd.

[11] Gov.uk, ‘Cymru yn ardal lansio’r genhedlaeth nesaf o dechnoleg awtonomaidd’
[12] Llyw.cymru, Memorandwm cyd-ddealltwriaeth: defnyddio cyllid Llywodraeth y DU ar gyfer y bargeinion twf dinesig a rhanbarth

**27.** Rydym yn argymell y dylai ein Pwyllgor olynol barhau i graffu'n rheolaidd ar y Bargeinion Twf Dinesig a Rhanbarthol. Gallai hyn gynnwys monitro'r problemau parhaus gydag Aberddawan, disodli prosiectau Trawsfynydd, sicrhau bod targedau swyddi yn cael eu bodloni ac edrych ar sut y mae buddsoddiad o fudd i'r ardaloedd mwyaf difreintiedig a gwmpesir gan bob bargen.

## Y Gronfa Twf Lleol

**28.** Mae'r Gronfa Twf Lleol yn gronfa datblygu economaidd newydd a grëwyd gan Lywodraeth y DU. Dyma'r fersiwn ddiweddaraf o'r gronfa sy'n disodli Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, a bydd yn rhedeg am dair blynedd.

**29.** Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar y Gronfa Twf Lleol ym mis Chwefror 2015. Roeddem yn anhapus bod y gronfa dipyn yn llai na'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yr oedd yn ei disodli ac roedd gennym bryderon difrifol ynghylch strwythurau'r Gronfa a'r cynllun ar gyfer cyflawni cronfa drom o ran cyfalaf mewn dim ond tair blynedd.

**30.** Un o'n prif feysydd pryder oedd rôl y Cyd-bwyllgorau Corfforedig wrth gyflawni elfennau rhanbarthol y gronfa. Roedd ein gwaith blaenorol ar Fargeinion Dinesig a Thwf wedi tynnu sylw at annigonolrwydd difrifol yng ngwaith cyflawni Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Gan nad oes gan y rhan fwyaf o ddinasyddion Cymru unrhyw ymwneud â'u Cyd-bwyllgor Corfforedig, bydd yn hanfodol i'n Pwyllgor olynol fonitro gweithrediad y Gronfa a sicrhau bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael eu dwyn i gyfrif am y cyflawni.

## Porthladdoedd rhydd a pharthau buddsoddi

**31.** Mae gan Gymru ddau Borthladd Rhydd: y Porthladd Rhydd Celtaidd, sy'n cwmpasu porthladdoedd Aberdaugleddau a Phort Talbot, a Phorthladd Rhydd Ynys Môn. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU gyllid ar gyfer dau Barth Buddsoddi yng Nghymru yn ei Datganiad Hydref 2024; Casnewydd a Chaerdydd; a Wrecsam a Sir y Fflint. Dyrannwyd £160 miliwn yr un iddynt. Rydym yn argymell y dylai'r Pwyllgor nesaf fonitro datblygiadau mewn perthynas â'r Porthladdoedd Rhydd a'r Parthau Buddsoddi, ac asesu sut maent yn integreiddio polisïau economaidd ehangach a mentrau datblygu economaidd eraill megis y Bargeinion Dinesig a Thwf.

## Adfywio'r Cymoedd Gogleddol

**32.** Rydym yn pryderu am ddatblygu economaidd yn y Cymoedd Gogleddol, sef un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn economaidd yng Nghymru a'r DU. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i wario £100 miliwn drwy brosiect y Cymoedd

Technoleg erbyn 2028, ond dim ond tua £40 miliwn y mae wedi'i wario hyd yma. Yn ein sesiwn graffu gyffredinol ddiwethaf, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio wrthym fod y Cymoedd Technoleg yn ffocws penodol iddi rhwng nawr a diwedd tymor y Senedd hon[13], ac awgrymodd y gallai mwy o gyllid fod ar gael ar gyfer y prosiect yn ystod y cyfnod hwnnw.

**33.** Rydym hefyd yn pryderu nad yw'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi bod yn cyflawni ar gyfer y Cymoedd Gogleddol fel rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Rydym yn argymell y dylai ein Pwyllgor olynol fonitro'n agos y gwaith o sicrhau datblygu economaidd i bobl yn y Cymoedd Gogleddol. Dylai hyn gynnwys ffocws ar y Cymoedd Technoleg, sut y bydd Llywodraeth nesaf Cymru yn ceisio sicrhau'r manteision mwyaf posibl o ddeuoli'r A465, a sut y mae'n gweithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd ac eraill i ddatblygu mentrau ar y cyd er budd pobl yn y Cymoedd Gogleddol.

## Banc Datblygu Cymru

**34.** Cynhaliodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau y Bumed Senedd sesiynau craffu blynyddol gyda Banc Datblygu Cymru. Dilynodd y Pwyllgor hwn ei esiampl ac yna penderfynodd ei bod yn briodol cynnal ymchwiliad ffurfiol i'r Banc. Gwnaethom gyflwyno adroddiad ym mis Gorffennaf 2024. Roedd llawer o'r dystiolaeth a gawsom yn gadarnhaol iawn am weithgareddau a dull gweithredu'r Banc fel benthyciwr, gyda rhai awgrymiadau adeiladol ar gyfer gwelliannau, ond cafwyd rhywfaint o dystiolaeth negyddol a beirniadaethau hefyd, yn enwedig mewn perthynas â buddsoddiadau ecwiti'r Banc.

**35.** Mae'r Banc wedi cynnal adolygiadau i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd yn yr adroddiad. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i gynnal adolygiad ehangach o'r Banc yn 2026. Rydym yn argymell y dylai ein Pwyllgor olynol barhau i gynnal sesiynau diogelwch blynyddol gyda Banc Datblygu Cymru, parhau i fonitro'r broses o weithredu'r argymhellion o'n hadroddiad yn 2024 ac unrhyw ganlyniadau o adolygiad 2026.

## Y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd

**36.** Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd (GCRE) yn awyddus i ddod yn 'siop un stop' ar gyfer profi cerbydau rheilffyrdd newydd a chefnogi gwaith ymchwil, datblygu ac ardystio o'r radd flaenaf ar gyfer seilwaith,

[13] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25/02/2026, paragraff 88

technolegau, prosesau a sgiliau newydd.[14] Mae cynlluniau hefyd ar waith ar gyfer ynni adnewyddadwy a chanolfan ddata ar y safle. Pan ymwelodd y Pwyllgor â'r Ganolfan yn 2025, clywsom am y cyfle y byddai hyn yn ei roi i'r gymuned leol, gan ddenu mewnfuddsoddiad a chreu swyddi medrus o ansawdd da.

**37.** Mae'r Ganolfan wedi denu cryn dipyn o gyllid cyhoeddus gan Lywodraethau Cymru a'r DU. Fodd bynnag, mae wedi cael trafferth denu'r £330 miliwn mewn buddsoddiad preifat sydd ei angen arni, ac mae'n gweithio i ddadrisgio'r prosiect er mwyn sicrhau'r buddsoddiad hwnnw. Mewn gwaith craffu cyffredinol, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y bydd y Ganolfan yn debygol o fod wedi gwario bron holl gyllid Llywodraeth Cymru erbyn diwedd 2026, ac mae wedi dweud y bydd angen i Lywodraeth nesaf Cymru ystyried penderfyniad buddsoddi terfynol ar y Ganolfan yn 2027.

**38.** Rydym yn argymell y dylai ein Pwyllgor olynol barhau i fonitro cynnydd o ran datblygu'r Ganolfan. Oherwydd amserlen cyllid ar gyfer y Ganolfan, rydym yn argymell bod ein holynwyr yn ystyried cynnwys y Ganolfan yn eu gwaith cynnar iawn.

### Twristiaeth, Lletygarwch a Manwerthu

**39.** Mae'r sectorau twristiaeth, lletygarwch a manwerthu yn cyflogi cyfran uchel o weithlu Cymru. Maent hefyd yn gymharol agored i risgiau allanol megis pwysau costau byw. Un o'r ymchwiliadau cyntaf a gynhaliodd y Pwyllgor hwn oedd i adferiad y sectorau twristiaeth, lletygarwch a manwerthu ar ôl COVID-19 a'r cymorth fyddai ei angen arnynt yn y dyfodol.

**40.** Yn fwy diweddar, mae'r Senedd wedi pasio dau ddarn o ddeddfwriaeth sylfaenol ynghylch twristiaeth – Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 a Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) (sy'n disgwyl Cydsyniad Brenhinol ar hyn o bryd). Craffodd y Pwyllgor ar y Bil hwn yng Nghyfnodau 1 a 2. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, clywsom am syrffed ar ddeddfwriaeth a pholisi[15] gan y diwydiant a bod y baich rheoleiddiol yn dod yn fwyfwy heriol i ddarparwyr llety.

[14] Y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd, Cenhadaeth
[15] Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) Adroddiad Cyfnod 1

**41.** Rydym yn argymell y dylai ein Pwyllgor olynol barhau i fonitro'r heriau sy'n wynebu'r sectorau twristiaeth, lletygarwch a manwerthu ac yn cynnal gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar y ddwy Ddeddf.

### Effaith Deallusrwydd Artiffisial ar yr economi a'r gweithlu

**42.** Yn 2025, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar ddeallusrwydd artiffisial (neu AI) ac Economi Cymru. Ymchwiliad byr a chryno oedd hwn, ond clywsom lawer o dystiolaeth ddiddorol. Clywsom weledigaethau o gynnydd mewn cynhyrchiant wedi'i adeiladu ar seilwaith deallusrwydd artiffisial cynaliadwy wedi'i bweru gan wynt Cymru a'i oeri gan ddŵr y môr. Fodd bynnag, clywsom hefyd am yr effaith y gallai deallusrwydd artiffisial ei chael ar rai rhannau o'r gweithlu, a'r angen i gefnogi'n rhagweithiol y rhai sy'n colli eu swyddi o ganlyniad i awtomeiddio. Dywedwyd wrthym y gall deallusrwydd artiffisial fod yn offeryn ar gyfer twf busnes ond bod diffyg hyder ymhlith busnesau ynghylch sut y gallent ei ddefnyddio.

**43.** Mae deallusrwydd artiffisial yn dechnoleg sy'n symud yn anhygoel o gyflym. Hefyd, mae cwestiynau difrifol yn cael eu gofyn ar hyn o bryd am ganlyniadau buddsoddiadau'r sector cyhoeddus mewn deallusrwydd artiffisial.[16] O ystyried y goblygiadau posibl, mae'n hanfodol bod llunwyr polisi yn cadw i fyny â'r datblygiadau. Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn cynnal ymchwiliad dilynol i ddeallusrwydd artiffisial a'i effaith ar economi Cymru a'n gweithlu.

## Sgiliau

### Prentisiaethau

**44.** Prentisiaethau yw asgwrn cefn ein cynnig sgiliau galwedigaethol. Mae prentisiaethau wedi bod yn rhan o waith y Pwyllgor drwy gydol y Senedd hon, gan gynnwys cynnal ymchwiliad a chyhoeddi adroddiad ar Lwybrau Prentisiaeth ym mis Gorffennaf 2025. Roedd prentisiaethau hefyd yn rhan allweddol o'n hymchwiliadau eraill megis yr Economi Werdd a Mewnfuddsoddi.

**45.** Fodd bynnag, mae yna lawer o feysydd prentisiaethau y byddai'n fuddiol i'n Pwyllgor olynol ymchwilio iddynt yn benodol. Rydym yn argymell y dylai'r Pwyllgor nesaf ystyried cynnal ymchwiliadau i radd-brentisiaethau a chyllid prentisiaethau.

**46.** Mae Medr yn gweithio ar y Rhaglen Brentisiaethau newydd a fydd yn dechrau ar 1 Awst 2027 pan ddaw'r contractau presennol i ben. Mae hwn yn

---

[16] The Guardian Revealed: UK's multibillion AI drive is built on 'phantom investments'

foment allweddol wrth ddarparu prentisiaethau ac rydym yn annog ein Pwyllgor olynol i ymgysylltu â Medr a rhanddeiliaid ynghylch y Rhaglen newydd.

## Yr Ardoll Brentisiaethau

**47.** Rhaid i bob cyflogwr yng Nghymru sydd â bil cyflog o dros £3 miliwn y flwyddyn gyfrannu 0.5 y cant o'u bil cyflog at yr Ardoll Brentisiaethau. Fodd bynnag, nid oes gan gyflogwyr yng Nghymru fynediad uniongyrchol at gyllid yr Ardoll, yn wahanol i gyflogwyr yn Lloegr. Yn hytrach, ers 2020, mae cyllid yn cael ei ddychwelyd i Gymru drwy Fformiwla Barnett yn y grant bloc i Lywodraeth Cymru.

**48.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ar y pryd, Jeremy Miles, wrth y Pwyllgor, o ganlyniad i'r newid hwn, nad yw Llywodraeth Cymru yn gallu nodi faint o gyllid sy'n cael ei gynhyrchu gan yr ardoll, na faint o gyllid sy'n dod i law o ganlyniad iddi.[17]

**49.** Bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno Ardoll Twf a Sgiliau yn lle'r Ardoll Brentisiaethau yn Lloegr o fis Ebrill 2026 ymlaen. Bydd yr Ardoll Brentisiaethau yn parhau i weithredu yng Nghymru fel y mae ar hyn o bryd.

**50.** Rydym yn pryderu ynghylch tryloywder yr Ardoll ac yn ymwybodol o'r newidiadau sydd ar ddod yn Lloegr. Rydym yn argymell y dylai ein Pwyllgor olynol edrych ar yr Ardoll Brentisiaethau a sut y gall weithio i gyflogwyr Cymru.

## Sgiliau hyblyg ar gyfer economi sy'n newid

**51.** Un canfyddiad allweddol o'n hadroddiad Economi Werdd oedd mai un o'r prif amcanion y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ei chyflawni yw sicrhau bod gan y gweithlu y sgiliau cywir i fanteisio'n llawn ar y newid i economi werdd. Mae'n hanfodol ein bod yn deall sgiliau ein gweithlu presennol a'r anghenion sgiliau yn y dyfodol, yn ogystal â sut y gallwn alinio darpariaeth sgiliau â'r ddwy elfen.

**52.** Rydym yn argymell y dylai ein Pwyllgor olynol edrych ar sut y gall Cymru sicrhau darpariaeth sgiliau hyblyg i ddiwallu anghenion ein heconomi sy'n newid.

[17] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26/06/2024, paragraff 46

## Masnach

### Cymru, y DU a'r UE

**53.** Disgwylir i'r rownd ddiweddaraf o drafodaethau rhwng yr UE a'r DU ddod i ben cyn uwchgynhadledd nesaf y DU a'r UE, y disgwylir iddi gael ei chynnal yn hanner cyntaf 2026. Mae'n debygol y bydd y trafodaethau'n arwain at gytundebau ar fesurau iechydol a ffytoiechydol, masnachu allyriadau a mynediad y DU at farchnad drydan sengl yr UE. Mae'r materion hyn yn dod o fewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli a bydd ganddynt oblygiadau sylweddol i Gymru, o ystyried ei dibyniaeth ar fasnachu â'r UE. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth Lywodraeth y DU y bydd amseru'r diddymu yn her i Gymru gael ei chynrychioli yn y trafodaethau am gytundebau ailosod yr UE a'u rhoi ar waith. Rydym yn cytuno.

**54.** Rydym hefyd yn disgwyl Bil Partneriaeth yr UE gan Lywodraeth y DU. Byddai'r ddeddfwriaeth hon yn ceisio alinio'r DU â'r UE yn y meysydd y cytunwyd arnynt yn y cytundeb 'Common Understanding'. Er nad oes amserlen wedi'i chadarnhau ar gyfer y Bil hwn, mae Llywodraeth Cymru yn credu bod Llywodraeth y DU yn bwriadu iddo gwblhau ei daith drwy Senedd San Steffan erbyn diwedd 2026.

**55.** Rydym yn bryderus ynghylch amserlen y trafodaethau hyn a'r bwriad i gyflwyno Bil Partneriaeth yr UE yn ystod etholiadau datganoledig. Mae'n hanfodol bod y Senedd nesaf yn cymryd rhan mor lawn â phosibl. Rydym yn argymell y dylai ein Pwyllgor olynol flaenoriaethu craffu ar drafodaethau a chytundebau rhwng y DU a'r UE, ac unrhyw ddeddfwriaeth gysylltiedig, cyn gynted â phosibl ar ôl ei sefydlu.

### Safleoedd Rheolaethau'r Ffin

**56.** Cytunwyd ar gyfundrefn fewnforio newydd Prydain, Model Gweithredu Targed y Ffin (BTOM), gan lywodraethau'r DU ym mis Awst 2023. Roedd yn nodi'r gofynion ôl-Brexit ar gyfer rheolaethau masnach yn Safleoedd Rheolaethau'r Ffin, gyda thri ohonynt wedi'u cynllunio ar gyfer Caergybi, Doc Penfro ac Abergwaun. Gwnaethom ymweld â safle arfaethedig Safle Rheolaethau'r Ffin Caergybi ym mis Gorffennaf 2023. Gwnaethom gymryd tystiolaeth ar y materion hyn a chyhoeddi adroddiad ym mis Hydref 2024 yn dilyn sesiynau tystiolaeth gyda Llywodraeth y DU ac arbenigwyr.

**57.** Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog ddatganiad yn dweud ei fod wedi "penderfynu peidio â chomisiynu a staffio'r safle yng

Nghaergybi, ac na chaiff adeiladu safle rheolaethau'r ffin yn Abergwaun a Doc Penfro ei gychwyn", o ganlyniad i'r Common Understanding a'r cytundeb ar fesurau iechydol a ffytoiechydol disgwyliedig rhwng y DU a'r UE.[18]

**58.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn monitro'r materion hyn wrth i drafodaethau rhwng y DU a'r UE fynd rhagddynt.

### Masnach â gweddill y byd

**59.** Mae'r Pwyllgor wedi craffu ar gytundebau masnach ôl-Brexit yn y Senedd hon, gan gynnwys gwaith penodol ar y Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU ac Awstralia[19], y Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU a Seland Newydd[20] a Phartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel. Mae hefyd wedi bod yn monitro'r cytundeb rhwng y DU ac India ac wedi derbyn cynnig o friff technegol gan Lywodraeth Cymru yn hwyr yn y Chweched Senedd. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi defnyddio sesiynau craffu cyffredinol i graffu ar ddatblygiadau masnach ehangach, gan gynnwys gyda phartneriaid masnach allweddol, megis UDA, ac ar faterion amserol, megis masnach ddur Cymru.

**60.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol barhau â'r gwaith hwn.

## Materion Gwledig

### Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy

**61.** Craffodd y Pwyllgor hwn ar Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Creodd y Ddeddf hon y sail ddeddfwriaethol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac rydym wedi bod yn dilyn ei ddatblygiad yn agos.

**62.** Gwnaethom gyhoeddi adroddiad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ym mis Gorffennaf 2024. Mae'r adroddiad yn ymdrin â mynediad i'r cynllun ar gyfer newydd-ddyfodiaid a ffermwyr tenant, sut y byddai ffermio tir comin yn rhan o'r cynllun, sut y byddai ffermio organig yn cael ei wobrwyo, dulliau atafaelu carbon a sut y byddai'r taliad gwerth cymdeithasol yn gweithio.

**63.** Lansiwyd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ym mis Ionawr gyda chyfnod ymgeisio o 2 Mawrth tan 15 Mai. Mae'n ofynnol i bawb sy'n ymuno â'r cynllun

---

[18] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Rheolaethau'r Ffin at fewnforion i Gymru o Iwerddon
[19] Ymchwiliad i'r Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU ac Awstralia
[20] Ymchwiliad i'r Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU a Seland Newydd

ymgymryd â'r gweithredoedd 'Cyffredinol' i dderbyn y Taliad Sylfaenol Cyffredinol. Bydd gweithredoedd 'Opsiynol' a 'Cydweithredol' nad ydynt yn orfodol, y disgwylir iddynt gyflawni canlyniadau mwy uchelgeisiol, ar gael am daliad ychwanegol ond mae'r rhain yn dal i gael eu datblygu.

**64.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru mewn cyfnod o ansicrwydd a disgwyl[21] i weld faint o ffermwyr fyddai'n cofrestru ar gyfer y cynllun. Dywedodd wrthym eu bod wedi bod yn treialu rhai o'r gweithredoedd opsiynol a chydweithredol ond y byddai angen eu cyflwyno'n raddol mewn cydweithrediad â ffermwyr.

**65.** Mae'r Pwyllgor wedi craffu ar lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dilyn galwadau gan y sector am gynnydd o ystyried uchelgais y cynllun i gyflawni amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

**66.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn parhau i fonitro gweithrediad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac, yn benodol, ddatblygiad y dull opsiynol a chydweithredol, a lefel y cyllid sydd ar gael.

**67.** Er mai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy oedd prif ganlyniad Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, mae hefyd yn cynnwys darpariaethau ynghylch lles anifeiliaid (gwahardd maglau a thrapiau glud), Tenantiaethau Amaethyddol (datrys anghydfodau) a thrwyddedau cwympo coed. Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn ystyried cynnal gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar ddarpariaethau Cynllun Ffermio Cynaliadwy a darpariaethau nad ydynt yn gysylltiedig â'r Cynllun hwnnw yn y Ddeddf.

## Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol

**68.** Er mai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fu'r datblygiad mwyaf i amaethyddiaeth Cymru yn nhymor y Senedd hon, rydym hefyd wedi bod yn cadw llygad ar lawer o faterion eraill. Un o ddarnau cyntaf o waith y Pwyllgor hwn oedd adolygiad o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

**69.** Ym mis Mehefin 2022, gwnaethom gyhoeddi adroddiad ar y Rheoliadau. Ymhlith pethau eraill, gwnaethom argymell ailgyflwyno llacio'r rheolau i ffermydd glaswellt cymwys wasgaru 250 kg/ha o nitrogen ac y dylai Llywodraeth Cymru

[21] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 05/03/2026, paragraff 139

flaenoriaethu unrhyw gynigion amgen addas sy'n defnyddio technoleg yn hytrach na chyfnodau gwaharddedig ar gyfer gwasgaru.

**70.** Ar 31 Mawrth 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadolygiad ei hun o'r Rheoliadau. Er bod yr adolygiad yn cefnogi'r dull cyffredinol, gwnaeth yr adroddiad 23 o argymhellion gan gynnwys ystyried lleihau'r baich rheoleiddio ar weithgareddau risg is, ystyried cynnwys dewis arall yn lle'r terfyn o 170kg o nitrogen yr hectar o dan rai amgylchiadau, a chododd y posibilrwydd o ddewis arall yn lle'r cyfnod gwaharddedig, neu ddyddiadau hyblyg ar gyfer y cyfnod hwnnw.

**71.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrthym ei fod wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i weithredu ar argymhellion yr adolygiad. Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn monitro cynnydd o ran gweithredu argymhellion yr adolygiad.

## Niferoedd Da Byw

**72.** Rydym wedi clywed pryderon ynghylch y gostyngiad mewn niferoedd da byw ledled Cymru. Mae dau fater allweddol wedi'u codi ynghylch hyn. Roedd rhanddeiliaid yn pryderu bod y gostyngiad mewn niferoedd yn bygwth hyfywedd lladd-dai Cymru. Byddai cau lladd-dai yn arwain at anifeiliaid yn gorfod teithio ymhellach i gael eu lladd, yn gwanhau cadwyni cyflenwi lleol ac yn tynnu rhywfaint o'r gwerth ychwanegol o allbwn fferm o'r gymuned leol. Pryder arall sydd gennym yw er bod niferoedd da byw Cymru yn lleihau, mae faint o gig coch rydym yn ei fwyta wedi aros fwy neu lai yr un fath. Mae hyn yn golygu ein bod mewn perygl o orfod troi at fewnforion sy'n uwch mewn carbon ac â lefelau lles is i lenwi'r bwlch.

**73.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn monitro niferoedd da byw a hyfywedd lladd-dai.

## Garddwriaeth

**74.** Mae garddwriaeth yn fater sydd wedi codi mewn llawer o'n hymchwiliadau a chredwn fod lle i ddiwydiannau da byw a garddwriaeth ffynnu yn ein gweledigaeth ar gyfer sector bwyd bywiog a chynhyrchiol.

**75.** Mae garddwriaeth yn faes twf posibl i ffermwyr Cymru ac mae cynyddu faint o lysiau Cymreig sy'n cael eu tyfu a'u bwyta yng Nghymru wedi bod yn argymhelliad allweddol gennym. Mae'r mwyafrif helaeth o'n tir amaethyddol yn

cael ei ddefnyddio fel tir pori, felly mae garddwriaeth yn faes y bydd angen cymorth a hyfforddiant ar ffermwyr i symud iddo.

**76.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn ystyried cynnal ymchwiliad penodol i gefnogi twf garddwriaeth yng Nghymru.

## Tir Comin

**77.** Mae tua deg y cant o Gymru yn dir comin. Fodd bynnag, clywsom fod rhywfaint o'r tir hwnnw mewn cyflwr truenus erbyn hyn. Clywsom hefyd fod problemau gyda mynediad i'r tir comin.[22] Codwyd cymorth i bobl sy'n ffermio tir comin fel rhan o'n gwaith ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac mae wedi cael ei grybwyll mewn ymchwiliadau eraill hefyd.

**78.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn ystyried cynnal ymchwiliad i dir comin.

## Pysgodfeydd

**79.** Mae Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd y DU 2022 yn gosod y cyfeiriad strategol lefel uchel ar gyfer rheoli pysgodfeydd. Mae adroddiad cynnydd tair blynedd i fod i gael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2026. Mae'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn rhestru 43 o Gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd arfaethedig, a fydd yn asesu statws stociau ac yn nodi polisïau a chamau gweithredu i'w hadfer neu eu cynnal ar lefelau cynaliadwy. Hyd yma, mae Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd ar y cyd ar gyfer Draenogiaid y Môr a Chregyn y Brenin wedi'u cyhoeddi.

**80.** Yn ei ddiweddariad ar 29 Ionawr, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod y Cynllun Rheoli Pysgodfeydd ar gyfer Cymru yn unig ar gyfer Crancod a Chimychiaid ar y trywydd iawn i fod yn barod ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn gynnar yn 2026[23], a rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau pellach sydd ar y gweill. Mae dau Gynllun Rheoli Pysgodfeydd arall ar gyfer Cymru yn unig, ar gyfer cocos a chregyn moch, i'w cyflwyno erbyn 2028.

**81.** Mae'r Pwyllgor wedi ymgymryd â gwaith ar y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd, wedi cadw llygad ar y sefyllfa drwy sesiynau craffu Gweinidogol ac wedi monitro

---

[22] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20/10/2022, paragraff 311
[23] Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru: Dull Strategol ar gyfer mynd i'r afael â physgodfeydd a dyframaethu yng Nghymru: y diweddaraf

cymorth i Bysgodfeydd drwy ein gwaith ar gyllidebau drafft Llywodraeth Cymru. Gwnaethom hefyd archwilio bwyd môr fel rhan o'n hymchwiliad prosesu bwyd.

**82.** Oherwydd maint cylch gwaith y Pwyllgor, nid ydym wedi gallu rhoi'r amser y byddem wedi hoffi ei roi i bysgodfeydd. Dylai ein Pwyllgor olynol barhau i fonitro datblygiad y Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd. Mae bwyd môr Cymru yn cael ei allforio i raddau helaeth, ac rydym yn mewnforio'r mwyafrif rydym yn ei fwyta yng Nghymru. Mae hwn yn benblethdod rydym wedi'i ystyried sawl gwaith a chredwn y gallai cynyddu faint o fwyd môr o Gymru sydd ar blatiau Cymru fod yn ymchwiliad diddorol i'n Pwyllgor olynol ymgymryd ag ef.

### TB Buchol

**83.** Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad byr ar TB buchol ym mis Mai 2022. Roedd yn cynnwys archwilio materion megis prynu gwybodus gorfodol, profion a thaliadau digolledu. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn cadw llygad ar TB buchol drwy sesiynau craffu gweinidogol cyffredinol ers cyhoeddi'r adroddiad hwnnw.

**84.** Er bod y Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys gwaharddiad ar ddifa moch daear, mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi dweud wrthym fod y Grŵp Cynghori Technegol ar TB buchol wedi dechrau gwaith i ystyried rôl bywyd gwyllt mewn perthynas â TB buchol. Ar 5 Mawrth, dywedodd wrthym ei fod yn disgwyl y papur hwnnw yn fuan a dywedodd y byddai'n rhoi rhywbeth i Lywodraeth nesaf Cymru gnoi cil arno.

**85.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn cadw llygad ar TB buchol ac, yn benodol, ganlyniadau'r Grŵp Cynghori Technegol ar TB buchol.

### Y system fwyd

**86.** Mae'r system fwyd wedi bod yn bwnc pwysig i'r Pwyllgor hwn. Gwnaethom graffu ar Fil Bwyd (Cymru) Peter Fox ac, er na allem ffurfio barn ynghylch yr angen am ddeddfwriaeth, gwnaethom gefnogi bwriad polisi'r Bil yn llawn.

**87.** Gwnaethom adeiladu ar ein gwaith ar y Bil Bwyd yn ein hadroddiad ar brosesu bwyd. Gwnaethom argymell bod "rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gydlynu ei dull o ran y system fwyd drwy sicrhau bod polisïau'n gydgysylltiedig, ac yn ategu ei gilydd. Rhaid i hyn sicrhau bod y sector prosesu bwyd yn cael ei chefnogi i helpu busnesau i dyfu, a sicrhau y gall darparwyr Cymru wasanaethu marchnad Cymru. I wneud hyn, rhaid iddynt greu strategaeth gyffredinol a chyfannol ar gyfer y system fwyd gyfan a gynlluniwyd i gefnogi amcanion y

Weledigaeth ac alinio polisi bwyd y Llywodraeth, hyrwyddo'r sector prosesu bwyd, a blaenoriaethu cynaliadwyedd a diogelwch bwyd".[24]

**88.** Roeddem yn siomedig bod Llywodraeth bresennol Cymru wedi gwrthod yr argymhelliad hwn ond rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth nesaf Cymru yn ei weithredu. Byddai system fwyd gydlynol o fudd i iechyd a llesiant y genedl, yn ogystal â'n diwydiant bwyd a ffermio. Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn mynd ar drywydd yr argymhelliad hwn ac yn parhau i graffu ar Lywodraeth nesaf Cymru gyda'r nod o gydgysylltu polisi bwyd.

## Y Sector Milfeddygol

**89.** Ddiwedd y llynedd, ysgrifennodd y Pwyllgor Deisebau atom yn gofyn i ni ystyried materion a godwyd yn neiseb P-06-1291, "Cynnal ymchwiliad i'r pryniant corfforaethol o'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru". Yn flaenorol, roedd yn ofynnol i filfeddygfeydd fod yn eiddo i filfeddygon. Fodd bynnag, diddymwyd y ddarpariaeth hon ym 1999, gan arwain at gorfforaethau yn caffael llawer o filfeddygfeydd. Mae'r ddeiseb yn dadlau bod "pryniant corfforaethol" o bractisau milfeddygol yn tanseilio ansawdd gofal ac yn cynyddu costau i berchnogion anifeiliaid anwes.[25]

**90.** Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi bod yn ymchwilio i wasanaethau milfeddygol ar gyfer anifeiliaid anwes. Cyhoeddwyd canfyddiadau cychwynnol ar 15 Hydref; ond mae'r adolygiad hwn yn dal i fynd rhagddo. Yn ogystal, mae DEFRA wedi ymgynghori'n ddiweddar ar ddiwygio Deddf Milfeddygon 1966 ar gyfer y DU gyfan.

**91.** Oherwydd yr adolygiad parhaus, mae'r Pwyllgor wedi cadw llygad ar y mater hwn ac nid yw wedi ymgymryd â gwaith manwl. Fodd bynnag, gwnaethom godi'r mater yn ystod gwaith craffu cyffredinol, a dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrthym ei fod yn cefnogi casgliadau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a bod lles anifeiliaid yn cael blaenoriaeth yn yr ystyriaethau.[26]

**92.** Mae hwn yn fater y bydd angen ei fonitro'n barhaus a, phan fo'n briodol, rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn ystyried mynd ar drywydd adolygiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a chanlyniadau ymgynghoriad

[24] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Bil Bwyd (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1
[25] Deiseb P-06-1291
[26] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5/3/2026, paragraff 125

DEFRA gyda Llywodraeth nesaf Cymru a chynnal ymchwiliad i'r mater os oes angen.

## Lles Anifeiliaid

**93.** Cynllun Lles Anifeiliaid Cymru 2021 i 2026 yw map trywydd Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu ymrwymiadau lles anifeiliaid a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae'n cynnwys llawer o ymrwymiadau, gan gynnwys datblygu model cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid, gwella cymwysterau arolygwyr lles, gwneud teledu cylch cyfyng yn ofynnol ym mhob lladd-dy, a chyfyngu ar y defnydd o gewyll ar gyfer anifeiliaid fferm.

**94.** Dyma faes arall nad ydym wedi gallu ei archwilio mor drylwyr ag y byddem wedi dymuno oherwydd cyfyngiadau amser. Fodd bynnag, rydym wedi bod yn monitro lles anifeiliaid drwy sesiynau gweinidogol cyffredinol. Wrth i'r Cynllun ddod i ben, credwn ei bod yn amser priodol i ystyried ymchwiliad mwy manwl i ddyfodol lles anifeiliaid yng Nghymru ac rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn bwrw ymlaen â hyn.

## Hybu Cig Cymru

**95.** Mae Hybu Cig Cymru (HCC) yn Gwmni Cyfyngedig drwy Warant, ym mherchnogaeth lwyr Gweinidogion Cymru, wedi'i ariannu gan Ardoll Cig Coch Cymru ac mae'n gyfrifol am ddatblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch Cymru.

**96.** Ym mis Medi 2025, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad, yn dilyn ein hymchwiliad a lansiwyd mewn ymateb i honiadau o fwlio a diwylliant corfforaethol gwael o fewn HCC.

**97.** Ni wnaeth ein hymchwiliad archwilio'r honiadau. Yn lle hynny, gwnaethom benderfynu llunio adroddiad sy'n edrych tua'r dyfodol, gyda'r nod o sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i gael HCC yn ôl ar y trywydd iawn ac atal problemau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

**98.** Gwnaethom argymell "dylai HCC gyflwyno adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru yn amlinellu cynnydd ar greu a chynnal diwylliant corfforaethol iach am y tair blynedd nesaf. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i

fonitro'r diwylliant yn HCC a rhoi gwybod i'r Pwyllgor hwn a'i olynydd yn y Senedd nesaf am gynnydd HCC yn y maes hwn".[27]

**99.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn parhau i fonitro gweithrediad Llywodraeth Cymru a HCC o argymhellion ein hadroddiad ac, yn benodol, ddiwylliant a pherfformiad HCC.

## Iechyd Pridd

**100.** Mae iechyd pridd yn gwbl hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd ond mae'n aml yn cael ei anwybyddu. Ym mis Tachwedd 2025, gwnaethom gyhoeddi Tyrchu'r Tir: Gwella Iechyd Pridd Cymru. Yn ôl yr adroddiad, os ydym am adael tir o ansawdd addas i gynhyrchu digon o fwyd i fwydo ein plant a'r cenedlaethau i ddod, rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu ar frys i sicrhau bod ein pridd yn cael blaenoriaeth, a bod ei iechyd nid yn unig yn cael ei ddiogelu, ond ei wella. Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion penodol ynghylch sut i ddiogelu a gwella iechyd pridd drwy brofion gwell ond hefyd y system gynllunio.

**101.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn parhau i fonitro polisi iechyd pridd ac yn gwneud gwaith ategol ar ein hadroddiad maes o law.

## Gwahardd mawn mewn compost

**102.** Mae cefnogaeth eang i wahardd mawn mewn compost am resymau amgylcheddol. Roedd 92 y cant o ymatebwyr Cymru i ymgynghoriad ar y mater yn cefnogi gwaharddiad.

**103.** Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n gwahardd manwerthu compost mawn yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar y cyd rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn credu mai'r ffordd orau o gyflawni hyn yw i'r pedair gwlad gydweithio ar y mater.

**104.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod Llywodraeth yr Alban hefyd yn cefnogi bwrw ymlaen â hyn ledled y DU a'i bod yn edrych ymlaen yn eiddgar at y foment honno lle gall Llywodraeth y DU ddod o hyd i gyfle deddfwriaethol i wneud hynny.[28] Mae Bil Aelod Preifat yn gwneud ei ffordd drwy San Steffan ar hyn o bryd a fyddai'n gwahardd mawn mewn compost, ond rhybuddiodd

[27] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Hybu Cig Cymru
[28] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5/3/2026, paragraff 166

Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'n debygol o fethu ar ddiwedd y Sesiwn Seneddol hon ym mis Mai.[29]

**105.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod hyn yn golygu nad oes amserlen ar gyfer y gwaharddiad ar hyn o bryd.[30] Dywedodd os na fyddai cyfle deddfwriaethol yn codi ar lefel y DU yn y Senedd nesaf, dylai Cymru weithredu'r gwaharddiad ar sail ddomestig, ond gan bwysleisio mai gwaharddiad ar lefel y DU fyddai orau. Rydym yn argymell bod hwn yn fater y dylai ein Pwyllgor olynol barhau i fynd ar ei drywydd ac, o ystyried y gefnogaeth eang ymhlith y cyhoedd, dylai bwyso am benderfyniad ar y mater.

[29] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5/3/2026, paragraff 170
[30] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5/3/2026, paragraff 172

# 3. Cyngor i Aelodau'r Dyfodol

**106.** O ystyried yr holl faterion byw a brys cyfredol ar draws ein cylch gorchwyl, credwn y bydd angen i'r Pwyllgor nesaf fwrw iddi ar unwaith. Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn ei helpu i wneud hynny. Isod mae rhywfaint o gyngor a allai fod yn ddefnyddiol i aelodau'r Pwyllgor nesaf.

**107.** Mae perthnasoedd gwaith da oddi mewn i Bwyllgorau a rhyngddynt wedi gwella ein gallu i wneud gwaith craffu. Roedd cysylltiad rhwng cylch gwaith ein pwyllgor ni a chylch gwaith y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith mewn sawl maes. Aethom ati i wneud llawer iawn o waith ar y cyd, gan gynnwys gwahodd Aelodau'r Pwyllgor Hinsawdd i gymryd rhan yn ein gwaith craffu Cyfnod 1 o'r Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru). Hefyd, buom yn gweithio'n agos gyda'r Pwyllgor Hinsawdd, y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE. Roedd y cydweithio hwn wedi gwella ein gwaith craffu, ein hargymhellion a'n hadroddiadau.

**108.** Er ein bod wedi ymgysylltu â'n pwyllgorau cyfatebol yn San Steffan, ni wnaethom lwyddo i gynnal unrhyw ymchwiliadau na chasglu tystiolaeth ar y cyd. Credwn y byddai cydweithio â San Steffan ar themâu cyffredin yn fanteisiol ac y gallai helpu i graffu'n ehangach ar faterion. Pe baem yn dechrau o'r dechrau, byddem yn archwilio meithrin perthynas gryfach a chynnal ymchwiliadau ar y cyd â phwyllgorau San Steffan.

**109.** Mae gweithredoedd Llywodraeth y DU yn cael dylanwad mawr ar ganlyniadau meysydd polisi yn ein cylch gorchwyl. Mae hyn yn arbennig o wir am yr economi a masnach, ond mae'n wir am faterion gwledig a sgiliau hefyd. Mae gwaith y Pwyllgor wedi elwa'n fawr pan fo Gweinidogion y DU wedi ymwneud â'r Pwyllgor. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi cael rhai profiadau rhwystredig wrth geisio cael tystiolaeth gan Weinidogion y DU ar faterion allweddol. Bydd datblygu perthynas â Gweinidogion y DU yn bwysig i helpu ein holynwyr i graffu ar faterion mewn modd cynhwysfawr.

**110.** Yn olaf, rydym yn argymell yn gryf bod angen mynd allan o Fae Caerdydd ac ymweld â phobl yn y mannau lle maent yn byw, lle maent yn gweithio a lle mae'r problemau. Er bod sesiynau pwyllgor ffurfiol yn bwysig ac yn ddefnyddiol, mae ymweliadau yn rhoi dealltwriaeth well o lawer na siarad â phobl mewn ystafell Bwyllgor, gan roi cyfle gwirioneddol i amgyffred y materion dan sylw. Rydym yn

argymell yn gryf bod holl bwyllgorau'r Senedd yn y dyfodol yn rhoi blaenoriaeth i ymweld â rhanddeiliaid yng Nghymru a thu hwnt yn rheolaidd. Gallent hyd yn oed gyfarfod yn ffurfiol a chasglu tystiolaeth yn y gymuned.

## Y Pwyllgor yn y Chweched Senedd

**FAINT O GYFARFODYDD PWYLLGOR FFURFIOL A GYNHALIWYD?** **100**

**FAINT O DYSTION A RODDODD DYSTIOLAETH I'R PWYLLGOR?** **392**

**FAINT O DDIGWYDDIADAU/ YMWELIADAU Â RHANDDEILIAID A GYNHALIWYD?** **8**

**FAINT O ADRODDIADAU A GYNHYRCHWYD?** **36**

**FAINT O YMHOLIADAU A GYNHALIWYD?** **25**

# 4. Ymholiadau

**111.** Mae'r adran hon yn cynnwys trosolwg o'r ymchwiliadau a gynhaliwyd gennym yn nhymor y Senedd hon. Mae pob trosolwg yn cynnwys dolen mewn troednodyn i'n gwefan lle gallwch ddod o hyd i'r cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad, y dystiolaeth a gyflwynwyd, unrhyw ohebiaeth a ddaeth i law ac adroddiadau a gyhoeddwyd. Mae'r rhestr lawn o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor i'w gweld ar y wefan.[31]

**112.** Trafodir deddfwriaeth ym mhennod 5.

## Yr economi

### Dyfodol Dur yng Nghymru

**113.** Ers cyhoeddiad Tata ei fod yn mynd i gau'r ddwy ffwrnais chwyth yng Ngwaith Dur Port Talbot a gosod Ffwrnais Arc Drydan yn eu lle, mae canlyniadau'r penderfyniad hwn wedi bod yn un o'r prif faterion i'r Pwyllgor yn y Senedd hon. Gwnaethom gynnal nifer o sesiynau tystiolaeth a chraffu gyda Tata, undebau llafur a Llywodraethau Cymru a'r DU. Mae'r mater hwn yn parhau, felly rydym wedi cynnwys adborth ar gyfer ein pwyllgor olynol o dan yr adran Blaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd. Gallwch ddod o hyd i fanylion llawn y sesiynau a'r ohebiaeth ar y mater hwn ar wefan y Pwyllgor.[32]

### Diffyg Gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm a Phroblemau â'r Gadwyn Gyflenwi

**114.** Ffurfiwyd y Pwyllgor hwn tua diwedd y pandemig COVID. Un o'r materion cyntaf a archwiliwyd gennym oedd y chwalfa yn y gadwyn gyflenwi a grëwyd gan benllanw diffyg gyrwyr cerbydau nwyddau trwm, y pandemig a'r broses o ymadael â'r UE. Ym mis Ionawr 2022, gwnaethom gyhoeddi adroddiad Cyfeiriad newydd ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm: Mynd i'r afael â diffyg gyrwyr cerbydau nwyddau trwm a phroblemau cysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi.[33]

### Costau byw

**115.** Mae Cymru wedi wynebu chwyddiant uwchlaw'r targed drwy gydol tymor y Senedd hon ond, tua diwedd 2021, gwelsom y lefel chwyddiant uchaf ers 41

---

[31] Gwefan Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
[32] Dyfodol Dur yng Nghymru
[33] Diffyg gyrwyr cerbydau nwyddau trwm a phroblemau â'r gadwyn gyflenwi

mlynedd. Gwnaethom gyhoeddi adroddiad Pwysau Costau Byw ym mis Gorffennaf 2022.[34]

### Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth

**116.** Cafodd yr holl sectorau hyn eu heffeithio'n sylweddol gan y pandemig. Ym mis Gorffennaf 2022, gwnaethom gyhoeddi'r adroddiad Codi'r Bar - Sicrhau dyfodol y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu. Rydym wedi parhau i archwilio materion sy'n wynebu'r sector ers hynny.[35]

### Gweithgynhyrchu yng Nghymru

**117.** Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithgynhyrchu wedi'i ddiweddaru. Ym mis Mehefin y flwyddyn honno, gwnaethom gynnal ymchwiliad undydd i weithgynhyrchu yng Nghymru.[36]

### Cyllid datblygu rhanbarthol wedi'r UE

**118.** Roedd cyllid ar ôl ymadael â'r UE yn bwnc dadleuol. Roedd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn anghytuno'n ffyrnig ynghylch a oedd yr addewid y byddai Cymru'n cael yr un faint o gyllid ar ôl ymadael â'r UE wedi'i gadw. Gwnaethom gynnal ymchwiliad i'r mater hwn a chyfansoddiad y trefniadau ariannu newydd.[37]

### Ynni Niwclear

**119.** Ym mis Chwefror 2024, gwnaethom gyhoeddi adroddiad, Ynni Niwclear ac Economi Cymru. Dyma oedd penllanw ymchwiliad a oedd yn ystyried effaith economaidd bosibl datblygiadau niwclear newydd yn y Gogledd, sut i gynyddu cyflogaeth leol a manteision i gadwyni cyflenwi lleol neu rai sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.[38]

### Ymchwil a Datblygu

**120.** Ym mis Mai 2024, gwnaethom gyhoeddi adroddiad yn dilyn ymchwiliad undydd a roddodd gipolwg i ni ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran cyllid ar gyfer

[34] Costau byw
[35] Materion lletygarwch, manwerthu a thwristiaeth
[36] Gweithgynhyrchu yng Nghymru
[37] Cyllid datblygu rhanbarthol wedi'r UE
[38] Ynni niwclear

ymchwil a datblygu, ac a nododd rwystrau i Gymru gael mynediad at gyfran fwy o'r arian sydd ar gael ledled y DU i sbarduno arloesedd a thwf yn y dyfodol.[39]

### Banc Datblygu Cymru

**121.** Gwnaethom gynnal sesiynau craffu rheolaidd gyda'r Banc Datblygu ac, ym mis Tachwedd 2024, gwnaethom gyhoeddi adroddiad yn dilyn adolygiad. Mae rhagor o fanylion am y gwaith hwn wedi'u cynnwys yn y Blaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd uchod.[40]

### Yr Economi Werdd

**122.** Ym mis Mehefin 2025, gwnaethom gyhoeddi adroddiad ar yr Economi Werdd. Roedd hyn yn dilyn ymchwiliad lle gwnaethom edrych ar y cyfleoedd i bontio i economi werdd.[41]

### Difrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm

**123.** Ym mis Rhagfyr 2024, arweiniodd dau 'ddigwyddiad angori' at gau'r Porthladd yn llwyr. Bu'r porthladd ar gau tan ganol mis Ionawr, ac ni fyddai'r ddwy derfynfa ar waith yn llawn eto tan fis Gorffennaf. Achosodd hyn aflonyddwch enfawr i drafnidiaeth cludo nwyddau a theithwyr a chafodd effaith fawr ar yr economi leol. Ym mis Gorffennaf 2025, gwnaethom gyhoeddi adroddiad yn edrych ar yr hyn a aeth o'i le a sut y gellid osgoi digwyddiad arall o'r fath yn y dyfodol.[42]

### Yr Economi Sylfaenol

**124.** Er bod yr economi sylfaenol yn darparu llawer o swyddi hanfodol a bod y gweithwyr ynddi yn cyflawni rolau hanfodol, nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod beth yw'r economi sylfaenol. Gwnaethom gynnal ymchwiliad i archwilio sut y gallem gryfhau economi sylfaenol Cymru ac, ym mis Ebrill 2025, gwnaethom gyhoeddi adroddiad ar y mater.[43]

---

[39] Ymchwil a Datblygu
[40] Banc Datblygu Cymru
[41] Yr Economi Werdd
[42] Difrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm
[43] Yr Economi Sylfaenol

### Bargeinion Dinesig a Thwf

**125.** Rydym wedi gwneud llawer iawn o waith craffu ar y Bargeinion Dinesig a Thwf dros dymor y Senedd hon. Mae rhagor o fanylion am hyn a'n barn ar waith posibl yn y maes hwn yn y dyfodol i'w gweld yn yr adran Blaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd.[44]

### Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru

**126.** Mae awtomeiddio wedi bod yn fater sy'n achosi optimistiaeth a phryder i economegwyr ers amser maith. Fodd bynnag, ers lansio ChatGPT yn 2022, mae diddordeb mewn deallusrwydd artiffisial a'i effeithiau ar yr economi a'r gweithlu wedi dod hyd yn oed yn fwy acíwt. Yn 2025, gwnaethom gynnal ymchwiliad a chyhoeddi adroddiad yn edrych ar y risgiau a'r cyfleoedd sy'n deillio o ddeallusrwydd artiffisial. Dyma faes arall y credwn y gallai ein pwyllgor olynol fod eisiau ailedrych arno.[45]

### Cronfa Twf Lleol

**127.** Dyma'r fersiwn ddiweddaraf o gyllid datblygu rhanbarthol wedi'r UE. Ym mis Chwefror 2026, gwnaethom gyhoeddi adroddiad sy'n codi nifer o bryderon ynghylch y Gronfa. Dyma faes arall y credwn y gallai ein pwyllgor olynol fod eisiau ei archwilio, felly mae wedi'i drafod yn fanylach o dan yr adran Blaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd.[46]

### Mewnfuddsoddi

**128.** Yr adroddiad olaf a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor oedd ar Fewnfuddsoddi. Roedd hyn yn dilyn ymchwiliad lle gwnaethom archwilio sut y gallai Cymru gynyddu faint o fuddsoddiad uniongyrchol tramor rydym yn ei ddenu.[47]

## Sgiliau

**129.** Mae sgiliau yn hanfodol i gyflawni cynifer o agweddau ar y cylch gwaith. Am y rheswm hwn, yn hytrach na chynnal sawl ffrwd waith benodol ar sgiliau, gwnaethom integreiddio craffu ar sgiliau yn ein hymchwiliadau thematig eraill. Er enghraifft, roedd sgiliau yn rhan fawr o'n gwaith ar yr economi werdd a

---

[44] Bargeinion Dinesig a Thwf
[45] Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru
[46] Cronfa Twf Lleol
[47] Mewnfuddsoddi

mewnfuddsoddi. Gwnaethom argymhellion hefyd ynghylch sgiliau amaethyddol yn ein gwaith penodol ar faterion gwledig, er enghraifft, ar Cyswllt Ffermio ac wrth argymell cymorth i ffermwyr newid i arddwriaeth.

### Llwybrau Prentisiaeth

**130.** Roedd prentisiaethau yn ffocws mawr i waith y Pwyllgor ac maent yn un o'r meysydd rydym hefyd yn eu trafod yn ein hadran Blaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd uchod. Gwnaethom eu trafod yn rheolaidd mewn sesiynau craffu gweinidogol cyffredinol a gwnaethom hefyd gynnal un ymchwiliad penodol ar y mater.

**131.** Yn 2025, gwnaethom gynnal ymchwiliad i lwybrau prentisiaeth gan edrych ar fynediad at y rhaglen brentisiaeth a llwybrau drwy'r rhaglen. Gwnaethom ganolbwyntio'n benodol ar y llwybr rhwng lefelau, sut y darparwyd gwybodaeth a sut y cefnogwyd dysgwyr ond hefyd sut roedd hyn yn cefnogi cyflogwyr ac economi Cymru.[48]

## Masnach

**132.** Gwnaethom gynnal pedwar ymchwiliad penodol yn ymwneud â masnach. Fodd bynnag, roedd masnach yn bwnc arall i ni ei integreiddio i lawer o'n gwaith a'i drafod yn helaeth mewn sesiynau gweinidogol cyffredinol. Mae masnach hefyd yn faes sy'n esblygu'n gyson, yn enwedig o ystyried datblygiad y berthynas rhwng yr UE a'r DU ar ôl i ni ymadael â'r UE a'r cythrwfl presennol mewn marchnadoedd masnach byd-eang. O'r herwydd, mae masnach yn cael ei thrafod yn helaeth yn ein hadran Blaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd.

### Fframwaith Windsor a Model Gweithredu Targed y Ffin

**133.** Gwnaethom gynnal ymchwiliad i archwilio gweithrediad Model Gweithredu Targed y Ffin, a ddatblygwyd gan lywodraethau'r DU, Cymru a'r Alban a swyddogion o Ogledd Iwerddon. Gwnaethom gyhoeddi adroddiad ym mis Hydref 2024, ond mae digwyddiadau o amgylch y Model wedi bod yn newidiol iawn ac fe'u trafodir yn ein hadran Blaenoriaethau uchod.[49]

---

[48] Llwybrau prentisiaeth
[49] Fframwaith Windsor a Model Gweithredu Targed y Ffin

### Y Cytundebau Masnach Rydd rhwng y DU ac Awstralia a Seland Newydd

**134.** Gwnaethom archwilio'r ddau gytundeb masnach a'r risgiau a'r cyfleoedd i Gymru. [50]

### Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE

**135.** Yn 2025, gwnaethom weithio gyda chydweithwyr o dri o bwyllgorau eraill y Senedd[51] i archwilio gweithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE cyn adolygiad arfaethedig a chyhoeddi adroddiad ar y cyd ar y mater. Unwaith eto, mae masnach rhwng y DU a'r UE yn bwnc a drafodir yn ein hadran Blaenoriaethau.[52]

## Materion Gwledig

### TB Buchol

**136.** Gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad cyntaf ym mis Mai 2022 yn dilyn ymchwiliad byr i'r mater, sef Adnewyddu Rhaglen Ddileu TB Buchol Cymru. TB buchol yw un o'r pynciau rydym wedi'u cynnwys yn ein Blaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd.[53]

### Rheoliadau Llygredd Amaethyddol

**137.** Ym mis Mehefin 2021, pleidleisiodd y Senedd yn unfrydol i Bwyllgor y Senedd adolygu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Fodd bynnag, yn fuan ar ôl hyn, lansiwyd adolygiad barnwrol o'r Rheoliadau. Gwnaethom oedi'r gwaith ar ein hadolygiad ac ailddechrau unwaith yr oedd adolygiad yr Uchel Lys wedi'i gwblhau. Gwnaethom gyhoeddi adroddiad ar y Rheoliadau ym mis Mehefin 2022. Mae'r ddadl ar y Rheoliadau yn dal i fynd rhagddi, felly rydym wedi'u cynnwys yn ein Blaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd.[54]

---

[50] Y Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU ac Awstralia; Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU a Seland Newydd
[51] Y Pwyllgor Diwylliant, Busnes, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.
[52] Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE
[53] TB Buchol
[54] Rheoliadau Llygredd Amaethyddol

## Fframweithiau Cyffredin

**138.** Yn dilyn penderfyniad y DU i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, cytunodd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i greu dulliau gweithredu cyffredin ar gyfer y DU gyfan – neu 'fframweithiau' – mewn meysydd polisi a lywodraethwyd ynghynt gan gyfraith yr UE, ond sydd o fewn cymhwysedd y llywodraethau neu'r deddfwrfeydd datganoledig. Gwnaethom archwilio'r fframweithiau sy'n ymwneud â materion gwledig, gan gynnwys pysgodfeydd, cymorth amaethyddol, iechyd anifeiliaid a phlanhigion, a chyhoeddi dau adroddiad.[55]

## Cyswllt Ffermio

**139.** Ym mis Chwefror 2024, gwnaethom gynnal ymchwiliad undydd yn canolbwyntio ar barodrwydd a chapasiti Cyswllt Ffermio i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol sy'n ofynnol o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn ogystal â chefnogi ffermwyr yn ystod y cyfnod pontio.[56]

## Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

**140.** Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dal i fod yn fater perthnasol iawn ac mae wedi'i gynnwys yn ein Blaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod cyn y lansiad arfaethedig, gwnaethom gynnal ymchwiliad i gynigion y Cynllun, yn ogystal â'r broses ymgysylltu a chydlunio.[57]

## Hybu Cig Cymru

**141.** Yn dilyn problemau proffil uchel o fewn y sefydliad, penderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad i edrych ar effeithiolrwydd Hybu Cig Cymru (HCC) wrth gyflawni ei flaenoriaethau a darparu gwerth am arian i dalwyr ardoll. Gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad ym mis Medi 2025. Mae rhagor o fanylion yn yr adran Blaenoriaethau.[58]

## Iechyd Pridd mewn Amaethyddiaeth

**142.** Yn haf 2025, gwnaethom gynnal ymchwiliad i iechyd pridd mewn amaethyddiaeth. Gwnaethom edrych ar rôl pridd, monitro a phrofion, dosbarthiad

---

[55] Fframweithiau Cyffredin
[56] Cyswllt Ffermio
[57] Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy
[58] Hybu Cig Cymru

ac effaith polisi cyhoeddus ehangach ar bridd. Gan fod pridd iach yn hanfodol i gynaliadwyedd, rydym wedi cynnwys iechyd pridd yn ein Blaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd.[59]

## Prosesu Bwyd

**143.** Roedd ein hymchwiliad olaf ond un yn edrych ar Brosesu Bwyd. Gwnaethom archwilio materion gan gynnwys yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gefnogi'r sector prosesu ymhellach i gynyddu gwerth ychwanegol ar gyfer cynhyrchion bwyd yng Nghymru ac a oedd yn cyflawni yn erbyn ei Gweledigaeth ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod. Gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad ym mis Ionawr 2026 ac rydym wedi cynnwys mynd ar drywydd y gwaith hwn yn ein Blaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd.[60]

[59] Iechyd Pridd
[60] Prosesu Bwyd

# 5. Deddfwriaeth

**144.** Gwnaethom graffu ar dri Bil dros gyfnod y Chweched Senedd – dau Fil Llywodraeth Cymru ac un Bil Aelod o'r Senedd. Gwnaethom ystyried nifer o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol hefyd.

## Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

**145.** Cyflwynwyd y Bil i'r Senedd ar 26 Medi 2022 gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd. Nod polisi'r Bil oedd cyflwyno fframwaith newydd ar gyfer cymorth amaethyddol yn seiliedig ar 'Reoli Tir yn Gynaliadwy' a chaniatáu pontio o system gymorth Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE.

**146.** Pasiodd y Bil drwy gyfnodau craffu'r Senedd yn llwyddiannus, a chafodd Gydsyniad Brenhinol i ddod yn Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ar 17 Awst 2023.[61]

## Bil Bwyd (Cymru)

**147.** Roedd Bil Bwyd (Cymru) yn Fil Aelod o'r Senedd a gyflwynwyd gan Peter Fox AS i'r Senedd ar 12 Rhagfyr 2022. Nod y Bil oedd darparu fframwaith cyffredinol newydd ar gyfer y system fwyd, gan integreiddio ystyriaethau economaidd, iechyd a chymdeithasol, addysgol, amgylcheddol a gwastraff bwyd.

**148.** Yng Nghyfnod 1, er bod y Pwyllgor wedi cefnogi amcanion polisi'r Bil yn unfrydol, ni allai ddod i safbwynt unedig ar yr angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r amcanion hynny. Cynhaliwyd dadl ar yr egwyddorion cyffredinol yn y Senedd ar 24 Mai 2023, lle na chytunwyd ar y cynnig i gytuno ar yr egwyddorion cyffredinol a gwrthodwyd y Bil yng Nghyfnod 1.[62]

## Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)

**149.** Cyflwynwyd y Bil i'r Senedd ar 3 Tachwedd 2025 gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg. Y nod datganedig ar gyfer y Bil yw hyrwyddo datblygiad twristiaeth yng Nghymru a darparu'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer cynllun trwyddedu ar gyfer llety ymwelwyr.

---


[61] Senedd.Cymru, Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023
[62] Senedd, Cymru Bil Bwyd (Cymru)

**150.** Pasiodd y Bil drwy'r cyfnodau craffu yn llwyddiannus, gan gwblhau Cyfnod 4 ar 17 Mawrth 2026, ac mae'n disgwyl Cydsyniad Brenhinol ar hyn o bryd.[63]

## Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

**151.** Adroddodd y Pwyllgor ar gyfanswm o 20 o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar draws tymor y Chweched Senedd yn ymwneud ag ystod o bynciau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, yn amrywio o faterion lles anifeiliaid i hawliau cyflogaeth a rheoli cymorthdaliadau. Er nad oedd y Pwyllgor yn gweld unrhyw reswm i wrthwynebu i'r Senedd gytuno ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a oedd yn gysylltiedig â'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol dan sylw yn y rhan fwyaf o achosion, ar adegau teimlai'r Pwyllgor nad oedd ganddo ddigon o amser na'r wybodaeth briodol i ddod i gasgliad.

**152.** Mae manylion llawn yr ystod o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar gael ar wefan y Pwyllgor.



[63] Senedd.Cymru Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)






Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Yn cael ei reoli'n effeithiol
Effectively managed




community
Support Centre
www.community-tu.org
@CommunityUnion
Mechanical Fitter
(Rotational
Equipment)
In partnership
VPZ
@VPZ
www.vpz

